## Disgrifiad Swydd - Swyddog Llywyddu

**Tîm yr Orsaf Bleidleisio**

Mae Gorsafoedd Pleidleisio ar agor rhwng 7.00am a 10.00pm. Ar Ddiwrnod yr Etholiad mae angen i'r staff gyrraedd yr Orsaf Bleidleisio am 6:15am i osod yr offer. Ni chaniateir i staff adael y safle yn ystod yr oriau pleidleisio er mwyn sicrhau bod y bleidlais yn gyfrinachol.

Rôl staff yr orsaf bleidleisio yw sicrhau bod pleidleiswyr yn gallu bwrw eu pleidlais yn gyfrinachol, heb ddylanwad ac mewn awyrgylch digynnwrf.

**Y Swyddog Llywyddu**

Mae Swyddogion Llywyddu'n gyfrifol am gynnal y bleidlais yn y gorsafoedd pleidleisio ac mae'n rhaid iddynt feddu ar wybodaeth dda am y gweithdrefnau pleidleisio.

**Y Rôl:**

- Cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau.
- Rheoli'r orsaf bleidleisio.
- Sicrhau bod yr holl etholwyr yn cael eu trin yn ddiduedd ac â pharch.
- Sicrhau bod y bleidlais yn gyfrinachol.
- Goruchwylio'r Clerc(od) Pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio.

**Dyletswyddau:**

<u>Cyn Diwrnod yr Etholiad</u>

- Bod yn bresennol mewn sesiwn (sesiynau) hyfforddi gorfodol. Bydd hyn yn cynnwys sesiwn hyfforddi ar-lein ar gyfer gorsafoedd pleidleisio a sesiwn hyfforddi ar-lein ddilynol ar sut i ddefnyddio ipads yr orsaf bleidleisio.

**Mae hyn yn rhan o amodau eich cyflogaeth ac os nad ydych yn cyflawni dyletswyddau Swyddog Llywyddu ar y diwrnod ni fyddwch yn derbyn y ffi hyfforddiant**

- Cysylltu â'r person cyswllt ar gyfer yr orsaf bleidleisio ddynodedig cyn Diwrnod yr Etholiad i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer casglu'r allwedd/agor a chau'r adeilad.
- Ar safle lle mae mwy nag un orsaf bleidleisio, cysylltu â'r Swyddog Llywyddu arall.
- Cysylltu â'r Clerc(od) Pleidleisio i gadarnhau trefniadau teithio i'r orsaf bleidleisio ac oddi yno.
- Casglu'r blwch/blychau pleidleisio a gwirio'r cynnwys cyn y cyfnod pleidleisio yn ôl y cyfarwyddiadau, a'u cadw'n ddiogel tan y Diwrnod Pleidleisio.

<u>Diwrnod yr Etholiad</u>

- Cludo'r Blwch/Blychau Pleidleisio a'r cynnwys i'r orsaf bleidleisio.
- Gosod bythau pleidleisio.
- Trefnu cynllun yr orsaf bleidleisio gan roi ystyriaeth i holl anghenion pleidleiswyr.
- Bod yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â mynediad yn yr orsaf bleidleisio.
- Bod yn ymwybodol o Iechyd a Diogelwch yn yr orsaf bleidleisio ar gyfer yr holl staff ac ymwelwyr.

● Sicrhau bod yr orsaf bleidleisio'n agor yn brydlon.
● Sicrhau bod pob arwydd a hysbysiad yn glir, yn weladwy ac yn aros yn ei le.
● Cadw’r orsaf bleidleisio'n daclus ac yn lân.
● Rhoi cyfarwyddiadau i’r Clerc(od) Pleidleisio a goruchwylio eu gwaith.
● Cyfrif am yr holl bapurau pleidleisio a bod yn gyfrifol amdanynt, p'un a ydynt wedi cael eu dosbarthu neu beidio.
●Gofynnwch am brawf adnabod pleidleiswyr a'i wirio cyn cyflwyno papurau pleidleisio (Etholiadau Seneddol ac Etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn unig)
● Sicrhewch fod etholwyr yn deall y gofynion newydd o ran prawf adnabod pleidleiswyr gan gynnwys yr hyn sy'n dderbyniol fel prawf adnabod (Etholiadau Seneddol ac Etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn unig)
● Sicrhewch fod etholwyr yn gallu cyflwyno eu prawf adnabod yn breifat os gofynnir am hynny (Etholiadau Seneddol ac Etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn unig)
●Byddwch yn gyfrifol am wrthod papur pleidleisio i bleidleiswyr lle nad oes unrhyw brawf adnabod yn cael ei gyflwyno; neu lle nad ydych yn ystyried bod y prawf adnabod yn debygrwydd da; neu lle ystyriwch ei fod yn brawf ffug (Etholiadau Seneddol ac Etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn unig)
● Cefnogwch bleidleiswyr anabl i ddefnyddio unrhyw offer neu ddyfeisiau arbennig.
● Gwirio a nodi rhifau etholiadol etholwyr yn y gofrestr etholwyr ac ar y rhestri rhifau cyfatebol.
● Rhoi papurau pleidleisio i bleidleiswyr.
● Sicrhau bod pobl yn bwrw eu pleidlais yn gyfrinachol a'u bod yn rhoi eu papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio (cywir).
● Rhoi cymorth i bleidleiswyr pan fydd yn briodol.
● Derbyn pleidleisiau drwy'r post sy'n cael eu cyflwyno â llaw.
● Cadw trefn ar y rhai sydd â hawl i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio e.e. ymgeiswyr ac asiantau, cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac Arsylwyr achrededig a sicrhau nad ydynt yn ymyrryd â'r broses bleidleisio.
● Bod yn gwrtais ac yn broffesiynol wrth ymdrin â phawb sy'n ymweld â'r orsaf bleidleisio ac aros yn ddiduedd bob amser.
● Monitro gweithgareddau rhifwyr y tu allan i'r mannau pleidleisio.

Cau'r Bleidlais

● Sicrhau bod yr orsaf bleidleisio'n cau'n brydlon.
● Goruchwylio'r gwaith o ddadosod dodrefn yr orsaf bleidleisio a sicrhau bod yr adeilad yn cael ei adael yn ei gyflwr gwreiddiol.
● Cwblhau cyfrif y papurau pleidleisio a'r gwaith papur cysylltiedig. Pacio'n unol â'r cyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau.
● Dosbarthu'r Blwch/Blychau Pleidleisio a'r gwaith papur cysylltiedig yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddir ichi.

Byddwch yn gweithio diwrnod 16 awr felly mae'n rhaid ichi ddarparu eich lluniaeth eich hun.
Dylech gael egwyliau priodol drwy gydol y dydd i osgoi blinder.
Dylech wisgo dillad priodol ar gyfer eistedd i lawr am y rhan fwyaf o'r dydd, yn enwedig mewn tywydd oer.

Manyleb Person

**Swyddog Llywyddu**

| **PROFIAD** | |
|---|---|
| **Hanfodol** | **Dymunol** |
| Dealltwriaeth sylfaenol o'r broses etholiadol<br><br>Bod wedi gweithio fel Clerc Pleidleisio o leiaf ddwywaith o'r blaen | Profiad mewn amrywiaeth o etholiadau e.e. lleol, seneddol neu Ewropeaidd |

| **SGILIAU/NODWEDDION PERSONOL** | |
|---|---|
| **Hanfodol** | **Dymunol** |
| Sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i egluro gweithdrefnau i amrywiaeth o bobl<br><br>Ymrwymiad i ofal cwsmeriaid<br><br>Sgiliau gweinyddol da gan roi sylw i fanylion<br><br>Gweithio'n dda mewn tîm a meddu ar ymagwedd hyblyg<br><br>Peidio â chynhyrfu dan bwysau<br><br>Prydlon a dibynadwy | |

**Deleted:** Gallu codi bythau/blychau pleidleisio ac ati

| **ARALL** | |
|---|---|
| **Hanfodol** | **Dymunol** |
| Mae'n hanfodol nad ydych wedi gweithio i gefnogi ymgeisydd/plaid wleidyddol yn yr etholiad, p'un a ydych wedi cael eich talu neu beidio<br><br>Bod yn fodlon mynd i sesiwn hyfforddi yn ôl yr angen<br><br>Mae'n hanfodol nad ydych wedi cael eich dyfarnu'n euog o drosedd o dan Ddeddfwriaeth Etholiadol<br><br>Derbyn y bydd y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith yn cael ei rhoi o'r neilltu am gyfnod y gyflogaeth | Gallu defnyddio car |